

Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio yng Nghymru

Cynllun ar Dudalen 2020-2022

cydweithio ar draws ffiniau amlddisgyblaethol, sector a daearyddol, er mwyn lleihau'r risg o hunanladdiad a hunan-niwed, yng nghyd-destun COVID-19

1 Data a thystiolaeth Byddwn yn dylunio ac yn sefydlu System Arolygu Hunanladdiad Amser Real (RTSSS), a rhannu data ar hunanladdiad yr amheuir wrth iddynt ddigwydd er mwyn monitro tueddiadau a llywio dull o atal Byddwn yn cynnal adolygiadau tystiolaeth ac yn ymgysylltu â phartneriaid academiaidd er mwyn i ni weithio'n barhaus yn unol â'r sail dystiolaeth sy'n datblygu ac yn cynnal ein hymchwil a'u gwerthusiadau lleol ein hunain er mwyn llywio arferion Byddwn yn dadansoddi data gwasanaethau lleol a ffynonellau data eraill i wella ein dealltwriaeth o anghenion a darpariaethau lleol, er mwyn cymryd camau i wella ansawdd data a chael mwy o wybodaeth	5 Ymateb i argyfwng Byddwn yn ymdrechu i wella ein dealltwriaeth o ymddygiad 'ceisio help', gan gynnwys sut mae pobl yn chwilio am gymorth ar-lein neu drwy ddulliau digidol, a sut y gall pobl gael cysylltiad gwell â'r lle y gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr mewn Adrannau Brys (EDs) e.e.: cydgysylltu â thimau seiciatreg, er mwyn parhau i wella'r ffordd rydym yn ymateb i bobl sy'n dangos arwyddion o hunan-niwed neu hunanladdiad Byddwn yn gweithio gydag ymatebwyr cyntaf, ac yn cymryd rhan yn ffrydiau gwaith y Concordat Gofal Argyfwng, er mwyn sicrhau bod ymateb i hunanladdiad a hunan-niwed wedi'i wreiddio yn y darpariaethau
2 Canolbwyntio ein hadnoddau ar grwpiau sy'n hysbys eu bod yn wynebu mwy o risg Byddwn yn parhau i archwilio ac i ddatblygu cyfleoedd i bobl sy'n awyddus i ddod o hyd i help ar gyfer grwpiau penodol, megis dynion canol oed, nad ydynt efallai yn uniaethu ag iechyd meddwl neu'n chwilio am fynediad at wasanaethau iechyd meddwl neu wasanaethau statudol neu draddodiadol eraill a phobl dros 65 sydd wedi'u hynysu, yn teimlo'n isel neu'n sâl Byddwn yn ceisio dylanwadu ar ddatblygu ymateb mwy cydlynol ac addas i bobl sy'n hunan-niweidio ledled Cymru, sy'n aml yn bobl ifanc Byddwn yn cryfhau'r cysylltiadau â ffrydiau gwaith eraill e.e.: defnyddio sylweddau, gamblo, tai a digartrefedd, er mwyn nodi'r cyfleoedd i ymyrryd	6 Ymateb rhagweithiol i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gwirfoddol a statudol i gynnal ymarfer gwrando er mwyn cofnodi a chyflwyno teithiau profedigaeth y rhai yr effeithiwyd arnynt gan farwolaeth o ganlyniad i hunanladdiad, a nodi'r cyfleoedd ar gyfer cynnig cymorth rhagweithiol Byddwn yn ymgysylltu â'r asiantaethau a'r gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â'r rhai sydd mewn profedigaeth ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r adnoddau i ddarparu'r cymorth cywir ar yr amser cywir Byddwn yn gwerthuso Cymorth wrth Law, ac yn bwrw golwg dros adnoddau tebyg eraill er mwyn dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod gwybodaeth ar gael i wahanol grwpiau yn y ffordd fwyaf hwylus, gan gynnwys yn ddigidol
3 Lleihau mynediad at adnoddau Byddwn yn edrych ar y dystiolaeth a'r data lleol ar gysylltiadau posibl rhwng galwedigaethau, a ffactorau eraill a allai roi mynediad at adnoddau er mwyn llywio camau ymyrryd Byddwn yn nodi safleoedd allweddol ac yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio a thrafnidiaeth, ac asiantaethau trydydd sector, er mwyn llywio camau ymyrryd yn amserol a hyrwyddo systemau cymorth hygyrch i'r rhai sy'n wynebu risg	7 Meithrin sgiliau a hyder yn y gweithlu Byddwn yn gweithio gyda staff rheng flaen ar draws sectorau, i wella eu hanghenion hyfforddiant a datblygiad a llywio camau gweithredu i gynyddu hyder a gallu Byddwn yn gweithio gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (HEIW), sy'n canolbwyntio ar y Gweithlu Iechyd Meddwl, er mwyn datblygu adnoddau sy'n hawdd eu darllen ac yn rhoi blas ar fynediad at ddysgu am hunan-niwed a hunanladdiad
4 Datblygu Gwasanaethau	8 Darparu fframweithiau arwain systemau at atebolrwydd

Drwy broses grantiau bach Llywodraeth Cymru byddwn yn parhau i **ysgogi prosiectau arloesi lleol** sy'n ymateb i anghenion grwpiau blaenoriaeth yn y rhanbarthau, a'r dulliau newydd sy'n datblygu

Byddwn yn nodi lle sydd angen cymorth i **roi canllawiau NICE a chanllawiau ansawdd eraill ar waith**, ar gyfer atal a rheoli **hunanladdiad** a **hunan-niwed**

Byddwn yn annog **dull systemau cyfan** er mwyn atal hunanladdiad a hunan-niwed, sy'n amlygu'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau ar draws dyheadau strategol a pholisi llywodraeth, a chysylltu â'n cydweithwyr yng ngwledydd eraill y DU

Byddwn yn parhau i wasanaethu a chefnogi'r **fforymau hunanladdiad a hunan-niwed amlasiantaethol rhanbarthol**, cefnogi cynlluniau gweithredu lleol, ac adrodd ar y cynnydd i'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol (NAG) a Llywodraeth Cymru